# CROESO I GYLCHLYTHYR CARFAN DATBLYGU'R GYMUNED - RHCT GYDA'N GILYDD

RHIFYN: 03 C3 HYDREF – RHAGFYR 2023




[RhCT Gyda'n Gilydd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (rctcbc.gov.uk)]

**Cynnwys:**

Cymorth i Breswylwyr, Canolfannau Cydnerthedd y Gymuned a Rhwydweithiau Cymdogaeth - tudalen 2

Trosglwyddo Asedau Cymunedol - tudalen 3-4

Cyllid ac Adnoddau - tudalen 5-7

Cymunedau sy'n Oed Gyfeillgar - tudalen 8

Achlysuron ar y gweill - tudalen 9

Manylion cyswllt - tudalen 10

## Cymorth i Drigolion

Mae modd i drigolion Rhondda Cynon Taf ofyn am gymorth gan y gymuned pan fydd ei angen arnyn nhw fwyaf. Mae Cydlynwyr y Gymuned yn ymgysylltu â phartneriaid rydyn ni'n ymddiried ynddyn nhw o Grŵp Llywio Cymorth i'r Gymuned a sefydliadau sy'n gallu rhoi cymorth. Mae modd i unrhyw un ofyn am gymorth ar unrhyw bryd, a hynny ar eu cyfer nhw eu hunain neu ar gyfer unigolion y maen nhw'n eu hadnabod. Mae modd gwneud hyn drwy lenwi'r ffurflen syml ar-lein yma: Cymorth Trigolion| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (rctcbc.gov.uk)

Hyd yn hyn eleni, mae'r garfan wedi derbyn **846** o geisiadau unigol am gymorth.

Mae modd i breswylwyr roi cymorth â'r canlynol:

- **Bwyd neu gymorth yn ymwneud â bwyd - 605**
- **Gwybodaeth ac arweiniad am arian neu fudd-daliadau - 219**
- **Taleb archfarchnad untro - 210**
- **Talebau Tanwydd - 14**

**Llwybrau i Gymorth i Breswylwyr - Sut mae hyn yn gweithio:**



Atgyfeiriad eFfurflen



Canlyniad



- Yn ymwneud â siopa neu fwyd
- Statws
- Gwybodaeth ac arweiniad am arian neu fudd-daliadau
- Gwasanaeth Llyfrgell Gartref
- Gwasanaethau Llinell Fywyd a Mwy
- Cymorth o ran lles
- Asesiad Lles

YMATEBWYR

- Cydlynydd Cymunedol CBSRhCT
- Cymunedau am Waith a Mwy CBSRhCT
- Cyngor ar Bopeth neu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig osyw'n berthnasol
- Gwasanaeth Llyfrgelloedd CBSRhCT
- Gwasanaeth Llinell Gymorth a Mwy CBSRhCT
- Cydlynwyr Lles RhCT - Interlink
- Cydlynydd Cymunedol CBSRhCT

**Canolfannau Cydnerthedd y Gymuned a Rhwydweithiau Cymdogaeth**

Yn ystod Chwarter 3, cafodd 22 o gyfarfodydd Rhwydweithiau Cymdogaeth eu cynnal gyda 176 o grwpiau a sefydliadau cymuned wedi'u cynrychioli o ledled Rhondda Cynon Taf.

**Trosglwyddo Asedau Cymunedol**







Cwblhawyd un Trosglwyddiad Asedau Cymunedol yn ystod y chwarter yma gyda chytundeb prydles tymor hir ar gyfer grŵp Lee Gardens Pool a fydd nawr yn rheoli **Neuadd Les Penrhiwceiber OAP.**

Mae'r grŵp wedi bod yn llwyddiannus wrth sicrhau tua £86,000+ o gyllid cyfalaf i ailwampio'r neuadd a'r maes parcio. Mae disgwyl cwblhau'r gwaith erbyn 31/01/24.






## Taro goleuni ar....
## "Hwb Cana" - Pen-y-waun

Mae Coalfields Regeneration Trust (CRT) wedi sicrhau rhydd-ddaliad ar safle hen Ganolfan Cana (Pen-y-waun) yn 2021.

Ers hynny, maen nhw wedi sicrhau cyllid cyfalaf gwerth mwy na £346,000 i drawsnewid y ganolfan a gafodd ei hailagor ar 29 Ebrill 2023 yn **Ganolfan Sgiliau a Hyfforddi**. Mae CRT yn parhau i ymgysylltu ac ymgynghori â'r gymuned i lywio'r cyrsiau a gwasanaethau fydd ar gael yn y ganolfan yn y dyfodol - https://www.facebook.com/HwbCanaPenywaun/.

Maen nhw hefyd wedi penodi 3 tenant hir-dymor: 1) **Smart Money Cymru Community Bank** 2) **CRT Together - Improving the Cancer Journey** a 3) **Glofa'r Tŵr.** Mae'r tenantiaid yn cynnig ystod eang o wasanaethau i ddiwallu anghenion trigolion Pen-y-waun.

Dywedodd y grŵp fod y cymorth a dderbyniwyd gan garfannau Gyda'n Gilydd RhCT ac Eiddo'r Cyngor yn gadarnhaol iawn, gan fod y carfannau'n deall y broses a'r heriau, ac roedden nhw wrth law i roi cymorth ac arweiniad.

Mae heriau wedi cynnwys amserlenni, costau ailwampio cynyddol ar ôl covid, derbyn taliadau grant mewn dyledion ac oedi wrth osod y lifft er mwyn gwneud yr adeilad yn hygyrch.

Roedd CRT yn ffodus i dderbyn cyllid gan Gronfa Perchnogaeth Gymunedol Llywodraeth y DU, Rhaglen Cyfleusterau'r Gymuned Llywodraeth Cymru, Cronfa Fferm Wynt Pen y Cymoedd a Chronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU - Grant Cymunedol RhCT, ynghyd â chyfraniad hael o ddodrefn ac offer TGCh gan General Dynamic UK.

Dilynwch y ddolen i wylio fideo o Vikki Howells AS a Jane Hutt, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, yn trafod effaith ailagor Canolfan Cana ym Mhen-y-waun: https://www.facebook.com/watch/?v=199883826218112

Yn ystod y chwarter yma, rydyn ni wedi hysbysebu dau ased dros ben sydd gan y Cyngor ar gyfer Trosglwyddi Asedau Cymuned drwy broses "30 Diwrnod" yn sicrhau cyfle cyfartal Adeiladau - Cyfleoedd Trosglwyddo Asedau

1) **Canolfan Hamdden Llanilltud Faerdref a**
2) **Canolfan Cymuned Rhodfa'r Cambrian** (Gilfach-goch)

Derbyniwyd 5 Mynegiant o Ddiddordeb ar gyfer y ddau safle, ac mae sefydliadau allweddol wedi'u gwahodd i'r cam nesaf i gyflwyno achosion busnes â chostau a thystiolaeth erbyn mis Ebrill 2024.

Yn ystod y chwarter yma, derbyniodd y garfan 40 ymholiad am wybodaeth a chymorth. Aeth staff ati i ymgysylltu a 49 o grwpiau cymunedol a hwyluso 74 o gyfarfodydd. Mae 52 o ymholiadau CAT yn parhau. Mae 11 cais am gymorth wedi'u cwblhau a'u cau. Mae 4 o ymholiadau monitro CAT wedi cael eu cynnal

I weld rhagor o enghreifftiau o Drosglwyddo Asedau Cymuned y Cyngor yn llwyddiannus, cliciwch ar y ddolen i wefan Trosglwyddo Llwyddiannus

# Trosglwyddo Asedau Cymunedol - Cymorth i Grwpiau yn y Gymuned

## Taro goleuni ar...
## "Friends of Cap Coch Primary"

Sicrhawyd Cyllid Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU i greu gardd gymunedol. Mae'r gwirfoddolwyr a weithiodd gyda Gwasanaethau Customer Dealership yn Motonovo Finance Cardiff yn 'rhoi nôl i'r gymuned' trwy wirfoddoli i baratoi'r tir ar gyfer gosod y sylfeini ar gyfer cafnau plannu wedi'u codi.

Ym mis medi 2023, dechreuodd Landscapes for Learning ar waith adnewyddu a chreu cwt dysgu awyr agored a phlannu. Bydd Cadwch Gymru'n Daclus yn dechrau'r gwaith yn 2024 ac yn arwain gwirfoddolwyr drwy gamau olaf adeiladu'r ardd gymunedol. Darparodd Cadwch Gymru'n Daclus £9,000 o gyllid cyfatebol ar gyfer yr ardd gymunedol. Rydyn ni'n gobeithio cynnal achlysur arbennig i agor yr ardd ym mis Mawrth 2024.








## Taro goleuni ar...
## Valley Veterans

Yn ogystal â gweithgareddau Valley Veterans (Cwm Rhondda), mae'r grŵp wedi sicrhau cyllid gwerth tua £46,000 gan Ddeddf yr Eglwys yng Nghymru i adeiladu man hyfforddi Megége i geffylau ar dir cyfagos. Mae'r datblygiad yma'n cynnwys paratoi'r tir, systemau draenio, ffensio ac ailarwynebu, ac yn darparu cyfle cyffrous i'r grŵp ganiatáu i breswylwyr gael mynediad i gyfleusterau sy'n ymwneud â cheffylau a gwasanaethau therapi a fydd yn fuddiol i aelodau a'r gymuned ehangach.

Dywedodd Ysgrifennydd Valley Veterans, "Rwy' mor ddiolchgar i bawb yng Nghyngor RhCT a fu'n ein cefnogi ni pan dderbynion ni'r newyddion yma. Diolch am eich holl gymorth a chefnogaeth drwy gydol y broses yma. O'r holl gyllid grant rydyn ni wedi'i dderbyn, y cyllid yma sy'n golygu'r mwyaf i ni gan y bydd yn caniatáu i ni wireddi breuddwydion un o'n haelodau o greu ardal geffylau".

Mae'r gwaith ar y tir bellach wedi dechrau!





# Cyllid ac Adnoddau - Grantiau

## Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU - Grant Cymunedol Cyngor Rhondda Cynon Taf

Hyd yn hyn mae 18,824 yn rhagor o drigolion RhCT wedi ymgysylltu â chymorth neu weithgareddau yn y gymuned o ganlyniad i Gyllid Grant Cymunedol Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU.

## Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU - Grant Cymunedol Cyngor Rhondda Cynon Taf - Rownd 3

Cynhaliwyd 3 achlysur ymgysylltu â'r gymuned gan Interlink RCT ym mis Ionawr 2024, a mynychodd dros 206 o unigolion/grwpiau cymunedol cofrestredig.

Rownd 3 - agorodd ar 29 Ionawr 2024 ar gyfer prosiectau 2024-25 Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU - Grant Cymunedol Cyngor Rhondda Cynon Taf | Cyngor Sir Rhondda Cynon Taf




**Grant Urddas Mislif yn y Gymuned Llywodraeth Cymru - AR AGOR**

E-bostiwch y garfan i dderbyn pecynnau Urddas y Mislif a gweithdy gwybodaeth am ddim:

rhctgydangilydd@rctcbc.gov.uk

**Grant Cymorth â Bwyd - gwnewch gais NAWR.**

rhctgydangilydd@rctcbc.gov.uk

**Cysylltwch â'r garfan am ragor o wybodaeth.**

rhctgydangilydd@rctcbc.gov.uk

GrantCymunedolCFfGCBSRhCT@rctcbc.gov.uk

FFYNIANT BRO

LEVELLING UP

UK Government Wales

Llywodraeth y DU Cymru

# Cyllid ac Adnoddau - Grantiau

**Cynllun Cymorth o ran Costau Byw Cyngor Rhondda Cynon Taf**

**Grant Cymorth â Chyfleusterau'r Gymuned** - cyfleusterau wedi'u lleoli yn y gymuned sydd wedi'u cynnal gan sefydliadau ddim er elw sy'n hysbys i'r garfan, ac sy'n darparu cyfuniad o weithgareddau a/neu weithgareddau chwaraeon sydd wedi gwneud cais am £540 - mae 90 grŵp wedi manteisio ar y grant hyd yn hyn.

**Canolfannau Croeso y Gaeaf** - mae **86** o ganolfannau ar agor ledled RhCT yn cynnig y canlynol i breswylwyr:

- Man cynnes a diogel
- Bwyd a diod cynnes am ddim
- Pecynnau Cadw'n Gynnes
- Rhywle i wefru eu ffonau symudol

Mae Cronfa Caledi'r Gaeaf yn cefnogi Canolfannau Croeso'r gaeaf - darparwyr £111,228 i sefydliadau yn y gymuned

- [Canolfannau Croeso'r Gaeaf | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (rctcbc.gov.uk)]








# Cyllid ac Adnoddau - parhad

### Lleoedd Bwyd Cynaliadwy - Gwobr Efydd

Mae Partneriaeth Bwyd RhCT wedi derbyn Gwobr Efydd Lleoedd Bwyd Cynaliadwy Cenedlaethol ym mis Tachwedd 2023.

Bydd achlysur i ddathlu'r wobr efydd yn cael ei gynnal ddydd Gwener, 16 Chwefror 2024 rhwng 10am ac 1pm yn Strategaeth Adfywio Cymuned Bryncynon.

Mae Cydlynydd Bwyd Cynaliadwy Newydd bellach wedi dechrau yn ei swydd. E-bostiwch Rhiannon (Rhiannon.Edwards1@rctcbc.gov.uk) am ragor o wybodaeth.

### Cyfleuster Cymuned y Gilfach-goch

Lleoedd Bwyd Cynaliadwy - Ailwampio'r Cynnig Bwyd

Mae'r cyfleuster yn darparu tua 150 o brydau bwyd rhatach bob wythnos i breswylwyr sy'n hŷn na 50 oed.

Mae gweithgareddau'n cael eu cynnal yn y lleoliad bob dydd, gan gynnwys bingo, gwnïo, crosio, pilates, grŵp cymdeithasol i ddynion, Dysgu yn y Gymuned i Oedolion a Chanolfan Croeso'r Gaeaf.

Ar 7 Rhagfyr 2023, mynychodd 75 o drigolion Tonyrefail ginio Nadolig. Aeth disgyblion o Ysgol Gymuned Tonyrefail yno i ddarparu adloniant.






# Cymunedau sy'n Oed Gyfeillgar

(Rhwydwaith Rhyngwladol Sefydliad Iechyd y Byd (WHO))

Cymru Oed-Gyfeillgar
Age-Friendly Wales

Dementia Friends
An Alzheimer's Society initiative

### Cronfa Rhaglen Dementia yn y Gymuned

Roedd grantiau gwerth hyd at £2,000 ar gael yn rhan o rhaglen beilot i sampl o grwpiau bach o ystod i weithgareddau sy'n cefnogi mesurau atal dementia.

Mae gweithgareddau bellach yn cael eu cynnal mewn cymunedau ledled RhCT ac mae 51 o Gyfeillion Dementia wedi'u penodi o ganlyniad i'r cynllun yma.

### Strategaeth Toiledau Lleol

Yn dilyn derbyn cymeradwyaeth y Cabinet yn yr Hydref 2023, mae'r Strategaeth Toiledau Lleol wedi'i hadolygu bellach yn cael ei rhoi ar waith, ac mae cynlluniau yn eu lle i hyrwyddo'r cyfleusterau sydd ar gael, gan gynnwys mapiau hawdd eu defnyddio ar ein gwefan.

### Man Newid - Canolfan Cymuned y Maerdy

Mae Man Newid Cymunedol wedi'i osod ac mae bellach ar gael at ddefnydd y cyhoedd.

### Modiwl eDdysgu Dementia CBSRHCT

Sesiwn sefydlu corfforaethol wedi'i darparu i 180 o aelodau o staff y Cyngor

### Cyfeillion Dementia

Sesiwn wedi'i chynnal â Strategaeth Bryncynon



RHCT GYDA'N GILYDD
RCT TOGETHER

# Cadwch lygad - Datblygiadau ar y gweill

Cymru Oed-Gyfeillgar
Age-Friendly Wales

**RhCT Gyda'n Gilydd - Arolwg Cronfa Rhwydwaith Cymdogaeth**

Hoffwn ni ddod o hyd i ragor o wybodaeth am yr hyn sy'n bwysig i unigolion a'u cymunedau.
Bydd canfyddiadau'r arolwg yn cael eu defnyddio i lywio datblygiadau yn y dyfodol.

Cadwch lygad am ragor o wybodaeth.

**Datblygiadau Gwefan Gyda'n Gilydd RhCT**

Gwefan newydd ar y gweill

**Rownd 3 y Gronfa Ffyniant Gyffredin**

Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU - Grant Cymunedol Cyngor Rhondda Cynon Taf | Cyngor Sir Rhondda Cynon Taf



Dementia Friends
An Alzheimer's Society initiative




SUSTAINABLE FOOD places
RCT BRONZE

FFYNIANT BRO
LEVELLING UP

UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

# CYSYLLTWCH Â'R GARFAN




Am wybodaeth yn ymwneud â Throsglwyddo Asedau'r Gymuned ac ymholiadau cyffredinol, cysylltwch â

rhctgydangilydd@rctcbc.gov.uk 01443 425368

Ar gyfer Canolfannau Cydnerthedd y Gymuned, Rhwydweithiau Cymdogaeth, Gwirfoddoli a Chymorth i Drigolion, cysylltwch â

HybiauCymunedolCydnerth@rctcbc.gov.uk

Ar gyfer Grantiau Cymunedol CBSRHCT, cysylltwch â'r garfan Rhaglenni Cymunedol

GrantCymunedolCFfGCSRhCT@rctcbc.gov.uk

Neu ewch i dudalen RhCT Gyda'n Gilydd.

RhCT Gyda'n Gilydd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (rctcbc.gov.uk)